Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Cybi

**Ffordd Garreglwyd**
**Caergybi**
**Ynys Môn**
**LL65 1NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cybi

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cybi |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Eglwys yng Nghymru dan Reolaeth Wirfoddol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 444 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 340 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 44 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 23.0%) | 27.5% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 16.1%) | 35% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 20% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | 02/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yn berthnasol) | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan arweinwyr Ysgol Cybi weledigaeth glir sy’n cael ei rhannu’n gytûn gan yr holl staff. Rhoddir ffocws cadarn ar sicrhau bod pawb yng nghymuned yr ysgol yn cydweithio’n bwrpasol i gynnig y cyfleoedd a phrofiadau gorau posibl i bob disgybl. Mae arweinwyr yn gweithio’n ddiwyd i adeiladu tîm o staff sydd â disgwyliadau uchelgeisiol i’r disgyblion. Maent yn herio’r staff a’i gilydd yn gyson i sicrhau gwelliant parhaus ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae effaith yr arweinyddiaeth gadarn yn cael ei gweld ar draws yr ysgol. Mae’r addysgu yn dda ym mron bob un o’r gwersi. Mae’r athrawon yn hyderus yn eu gallu i ddarparu profiadau ysgogol a diddorol sydd yn ennyn diddordeb bron bob disgybl. Mae gan yr holl staff berthynas agos a chynnes gyda’r disgyblion. Maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch, sydd yn creu awyrgylch gynhwysol a gofalgar. Mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion y disgyblion yn eu gofal. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn effeithiol i gefnogi anghenion lles, cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion ac i gynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu. Mae’r ddarpariaeth a roddir i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu dwys yn arbennig o dda.

Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad bron bob un disgybl yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn trin eu gilydd ac oedolion gyda pharch. Mae gan bron bob un disgybl agwedd bositif at yr ysgol. Maent yn mwynhau bywyd ysgol ac yn dangos boddhad yn eu dysgu.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu bron bob un o’r medrau yn dda. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae medrau rhif a digidol y disgyblion yn datblygu’n gadarn ac maent yn llwyddo i gymhwyso’r medrau hyn yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu â’i gilydd wrth weithio o fewn eu hardaloedd, ac ym Mlwyddyn 6, maent yn trin a thrafod eu syniadau’n aeddfed wrth weithio gyda’u partneriaid trafod neu grwpiau. Fodd bynnag, yn aml iawn, mae mwyafrif y disgyblion yn tueddu i droi i’r Saesneg yn rhy gyflym wrth weithio o fewn eu grwpiau, heb ymdrechu i ddyfalbarhau yn y Gymraeg. Mae medrau darllen Saesneg disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu’n dda. Maent yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant. Er hyn, ar y cyfan, mae medrau darllen Saesneg disgyblion hŷn yr ysgol yn gryfach yn y Saesneg na’r Gymraeg.

## Argymhellion

A1 Datblygu medrau Cymraeg y disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas ag Ysgol Ofalgar, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau llythrennedd, rhifedd a chymdeithasol sy’n is na’r disgwyl ar gyfer eu hoed. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn cymhwyso eu medrau creadigol yn dda iawn mewn ystod o feysydd.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn datblygu eu medrau gwrando yn dda. Maent yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn ymateb i gwestiynau yn bwrpasol. Wrth symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio’n dda am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn talu sylw i’w gilydd wrth drafod ac yn ystyried safbwyntiau ei gilydd. Gyda anogaeth gyson oedolion, mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu’n briodol. Mae’r mwyafrif yn sgwrsio yn fwyfwy hyderus yn y Gymraeg gan siarad am eu profiadau a’u hardal leol. Mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn dda. Maent yn ymateb yn bwrpasol yn ystod gweithgareddau ac yn ateb yn ddeallus i gwestiynau oedolion. Mae medrau llafar Cymraeg lleiafrif disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu’n bwrpasol. Er hynny, mae’r mwyafrif yn tueddu i droi at y Saesneg yn rhy gyflym, heb ymdrechu i ddyfalbarhau yn y Gymraeg. Nid oes gan y disgyblion hyn afael digon cadarn ar gystrawennau Cymraeg ac mae diffyg geirfa yn llesteirio eu gallu i drafod eu gwaith yn hyderus.

Mae rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod ffurf a sŵn llythrennau’n dda ac mae eu medrau darllen yn datblygu’n briodol. Maent yn defnyddio strategaethau ffoneg yn effeithiol i adnabod geiriau syml a chyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae lleiafrif yn darllen llyfrau stori yn ddeallus. Ar y cyfan, mae medrau darllen disgyblion hŷn yr ysgol yn gryfach yn Saesneg nag yn y Gymraeg. Wrth ddarllen Cymraeg, maent yn deall testun syml ac yn cyfeirio at gymeriadau a’r prif ddigwyddiadau. Pan fyddant yn darllen Saesneg, maent yn darllen yn rhugl, gyda mynegiant. Maent yn talu sylw priodol i atalnodi ac yn amrywio goslef llais yn llwyddiannus. Mae’r mwyafrif yn defnyddio eu dealltwriaeth o’r testun i wneud casgliadau synhwyrol ac i rhagfynegi camau nesaf stori.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae llawer o’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau yn bwrpasol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau ac ysgrifennu geiriau syml, er enghraifft wrth ysgrifennu eu henwau’n gywir mewn cerdyn penblwydd. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae medrau’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ehangu’n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu ystod o destunau I safon uchel yn unol â’u hoed a’u gallu. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn ysgrifennu llythyrau anffurfiol i ffrindiau yn Lerpwl i ddisgrifio eu teimladau am foddi Capel Celyn fel rhan o’r gwaith thema.

Ar draws yr ysgol, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gyson dda. Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae disgyblion yn cyfri'n hyderus hyd at ddeg ac yn adnabod a chyferbynnu gwrthrychau a rhifau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth lunio coesau a breichiau estroniaid. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn hyderus drwy drafod ‘cwestiynau mawr’ ac yn ymchwilio i ddarganfod atebion fel ‘a oes gan bawb sydd â gwallt brown lygaid brown hefyd?’. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn gwneud cynnydd da â’u medrau rhifedd. Maent yn defnyddio dysgu blaenorol i ddatrys problemau’n fedrus. Fel rhan o’u gwaith ar y Celtiaid, er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrifo faint o anifeiliaid y gellir eu prynu o ganlyniad i ddinistriad y fferm gan y Rhufeiniaid.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwella’n gyson wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Yn y dosbarthiadau ifancaf, maent yn trin a thrafod offer yn hyderus, er enghraifft wrth dynnu lluniau o’u hwynebau gydag offer digidol er mwyn trafod teimladau. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn creu graffiau syml o faint traed aelodau’r dosbarth. Mae disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio ystod o offer a meddalwedd i gyflwyno gwaith ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn defnyddio fformiwla mewn taenlen yn gywir i ddarganfod elw net a gros wrth werthu omlet gyda gwahanol gynhwysion mewn caffi.

Ar draws yr ysgol, mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu’n dda iawn. Mae disgyblion y dosbarthiadau ifancaf yn defnyddio deunyddiau gwahanol i gynllunio a chreu collage fel rhan o’u thema ‘fi fy hun’. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn cyfuno eu medrau creadigol yn grefftus wrth gydweithio i greu modelau 3D o’r cread. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau creadigol mewn amryw ffyrdd, er enghraifft wrth gydweithio i greu tariannau Celtaidd, wrth greu darn o gerddoriaeth greadigol am Drên yr Wyddfa neu wrth berfformio dawns greadigol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae hon yn ysgol gartrefol a chynhwysol. Mae bron bob un disgybl yn hynod gwrtais ac maent yn ofalgar tuag at ei gilydd ac oedolion. O ganlyniad, maent yn teimlo’n ddiogel a hapus.

Mae’r ymddygiad ar draws yr ysgol yn gyson dda ac mae’r disgyblion sydd ag anghenion cymdeithasol neu emosiynol yn gwneud defnydd effeithiol o dechnegau hunanreoleiddio. Maent yn ymateb yn aeddfed i weithgareddau gwrthfwlio ac wrth drafod eu teimladau’n ddeallus mewn sesiynau lles. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan Twm, y ci lles, sydd yn ymweld â dosbarthiadau yn ddyddiol. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn dangos parch ac empathi at eraill, ac maent yn datblygu eu medrau datrys sefyllfaoedd bywyd yn effeithiol. Maent yn llwyddo i gael mynediad llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae llais y disgybl yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Mae bron bob un disgybl yn cyfrannu’n bwrpasol at awgrymu’r hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Ers dychwelyd i’r ysgol ar ôl cyfnodau clo’r pandemig, mae’r disgyblion yn ymgymryd ag amryw rolau arweinyddiaeth, gan gynnwys bod yn aelodau o’r cyngor ysgol, cyngor eco a’r Criw Cymraeg. Maent yn dangos boddhad wrth ymgymryd â’u gwaith ac yn mwynhau gweld yr effaith bositif a gânt ar fywyd yr ysgol a’r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae aelodau’r cyngor ysgol yn cynllunio gwelliannau i’r

ddarpariaeth yn ardaloedd tu allan yr ysgol tra bod y Criw Cymraeg yn arwain ar fentrau newydd i ddatblygu'r Gymraeg.

Mae bron bob un disgybl yn ymwybodol o ba fwydydd a diodydd sydd eu hangen arnynt i gadw'n iach. Er enghraifft, fel rhan o'r themâu, maent yn ymchwilio i weld faint o siwgr sydd mewn gwahanol ddiodydd a'r effaith mae gormod o siwgr yn ei chael ar y corff. Maent yn gwybod sut i gadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cadw'n ffit. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau a chyfleusterau sydd ar gael i gefnogi eu datblygiad corfforol yn ystod amseroedd chwarae.

Mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol  at eu dysgu. Maent yn gwerthfawrogi'r addysg a'r cyfleoedd dysgu mae'r ysgol yn eu cynnig. Mae rhan fwyaf yn dyfalbarhau yn eu tasgau, yn canolbwyntio'n dda ac yn ymgysylltu'n bwrpasol mewn gwersi. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn gwrando ar farn ei gilydd mewn gwaith pâr neu grŵp wrth ddatrys problemau. Er enghraifft, fel rhan o'u gweithgareddau datblygu medrau cymdeithasol, mae'r disgyblion hŷn yn cydweithio'n effeithiol wrth ddewis y ffordd orau o deithio ar hyd llwybr rhwystrau, gan ddilyn rheolau a dewis offer priodol. Mae bron bob un disgybl yn datblygu eu medrau annibyniaeth a gwytnwch yn dda. Ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae disgyblion yn gweithio'n ddiwyd yn eu hardaloedd wrth arbrofi a chwblhau tasgau. Maent yn dechrau gwneud penderfyniadau dros eu hunain ar y ffordd orau o gyflwyno'u gwaith. Mae hyn yn atgyfnerthu prif werthoedd yr ysgol, sef datblygu disgyblion uchelgeisiol a medrus.

Mae bron bob un disgybl yn ymateb i adborth llafar oedolion o oed cynnar. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn a ddisgwylir ohonynt ac maent yn fwyfwy hyderus wrth ymateb i gyfarwyddiadau staff. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r disgyblion yn gynyddol hyderus wrth ymateb i adborth llafar ac ysgrifenedig oedolion. Maent yn cymryd amser i feddwl am sut i wella eu gwaith, gan roi sylw priodol i wallau yn eu cystrawen, sillafu ac atalnodi. Maent yn hyderus wrth drafod eu targedau a'r hyn mae angen iddynt ei wneud i godi eu safonau ymhellach.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae gan yr holl staff berthynas waith agos a chynnes iawn â'r disgyblion. Maent yn trin bob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sydd yn creu amgylchedd gynhwysol a gofalgar. Mae gan y staff ddyheadau uchel i'r disgyblion ac maent yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gynllunio ystod o weithgareddau dysgu diddorol a phwrpasol sydd yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Er enghraifft, ym mlynyddoedd is yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau ysgogol sydd yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'r corff a sut i edrych ar ei ôl. Mae'r disgyblion yn mwynhau'r profiadau a gânt yn ardaloedd y dosbarth, gan gynnwys gwisgo fel doctoriaid a gofalu am gleifion yn yr ardal chwarae rôl. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae'r disgyblion yn mwynhau dysgu am hanes yr ardal leol, gan ddatblygu eu dealltwriaeth o fywyd y Celtiaid a dylanwad y Rhufeiniaid ar Ynys Môn. Mae'r athrawon yn cynllunio ymweliadau ar y cyd â'r disgyblion sy'n cysylltu'n bwrpasol â'u themâu. Er enghraifft, fel rhan o'r thema Celtiaid, trefnir ymweliadau buddiol i safleoedd hanesyddol yr ardal, gan gynnwys y bryn gaer lleol. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth gyfoethogi gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r athrawon yn manteisio ar gyfleoedd cyson i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud

dewisiadau iach. Er enghraifft, trwy eu themâu, mae disgyblion yn dysgu am beth yw deiet cytbwys, priodweddau'r grwpiau bwyd amrywiol ac effaith siwgr ar y corff.

Mae safon yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae bron bob un o'r athrawon yn defnyddio technegau holi medrus sydd yn effeithiol wrth adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac ymestyn eu dealltwriaeth ymhellach. Maent yn rhannu nod y gwersi yn gyson, ac yn cynnwys y disgyblion yn bwrpasol yn y broses o bennu'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y dysgu. Yn ei dro, mae hyn yn arwain at welliannau yn safon gwaith y disgyblion. Mae bron bob un o'r athrawon yn cynllunio'r dysgu'n fentrus i sicrhau bod lefel yr her i ddisgyblion yn briodol. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn cydweithio'n bwrpasol i feithrin agweddau cadarn o ddyfalbarhau a gwytnwch ymhob disgybl. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac yn cynllunio sesiynau gwerthfawr iddynt gydweithio â'i gilydd i ddatrys heriau. Trwy ddefnyddio ystod o dechnegau addysgu effeithiol, mae'r athrawon yn sicrhau bod bron bob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae staff cefnogi yn defnyddio eu medrau i gyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dysgu'r disgyblion.

Ym mron bob un dosbarth, mae safon yr adborth ar lafar a roddir gan athrawon yn dda. Mae'n arwain y disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith ar y pryd, er enghraifft lle i gynnwys atalnodi mewn brawddeg i sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr. Mae'r arweiniad a roddir gan athrawon yn llyfrau'r disgyblion yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r athrawon yn uwcholeuo elfennau o waith y disgyblion sydd angen sylw mewn gwyrdd. Mae hyn yn dangos i'r disgyblion lle mae angen golygu eu gwaith. Mae bron bob un o'r athrawon yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ystyried ansawdd gwaith eu hunain, ac ar adegau priodol, gwaith disgyblion eraill.

Mae holl staff yr ysgol wedi llunio gweledigaeth ar gyfer cwricwlwm cynhwysfawr sydd yn ennyn diddordeb ac ymglymiad bron pob un disgybl yn llwyddiannus. Yn ddiweddar, mae'r athrawon yn rhan o weithgorau sydd wedi'u cysylltu â'r meysydd dysgu a phrofiad. Maent yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau bod cydbwysedd ac ehangder priodol ym mhrofiadau disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae gan yr ysgol gynlluniau cynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau disgyblion. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion datblygu eu medrau llafar, er enghraifft wrth gyflwyno eu gwaith o flaen gynulleidfa. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd i'r disgyblion ddarllen ystod o wahanol ddeunyddiau fel rhan o'r gwaith thema, ac i ysgrifennu mewn amrediad o ffurfiau. Mae cyfleoedd cadarn i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth greu graffiau fel rhan o'r gwaith gwyddoniaeth. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn cymryd bob cyfle a gânt i ddatblygu eu medrau Cymraeg i'r un lefel â'u medrau Saesneg, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llafar a darllen.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar sydd â threfniadau effeithiol iawn ar gyfer darparu gofal a lles o'r safon uchaf i'w disgyblion.

Mae gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) brosesau cadarn ar waith i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar, i olrhain cynnydd bob disgybl ac i werthuso effaith ymyraethau ar gynnydd disgyblion.

Mae'r CADY yn cydweithio'n effeithiol iawn â gweddill y staff ac yn darparu hyfforddiant cynhwysfawr iddynt. O ganlyniad, mae gan y staff adnabyddiaeth drylwyr o anghenion bob disgybl ac mae'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn gynhwysfawr. Agwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r gefnogaeth a roddir i grwpiau penodol o ddisgyblion. Darperir ymyraethau o ansawdd uchel, sy'n targedu anghenion disgyblion yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth o fewn y dosbarth ymyrraeth llythrennedd yn sicrhau bod gan ddisgyblion fedrau sylfaenol digon da i fanteisio ar y cwricwlwm a chyfathrebu â'i gilydd yn llwyddiannus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer adnabod ac ymateb i anghenion emosiynol y disgyblion yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r bocsys pryder a'r wal hunangofrestru yn llwyddiannus wrth annog y disgyblion i drafod eu teimladau a'u hemosiynau ar y pryd. Yn ogystal, gwna'r staff ddefnydd pwrpasol o hafanau clud a'r podiau cefnogi o fewn y dosbarthiadau i gefnogi anghenion emosiynol y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol raglen meddylgarwch gynhwysfawr ar waith. Mae hyn yn effeithiol wrth ddatblygu medrau cymdeithasol y disgyblion, gan gynnwys y gallu i ddangos empathi at eraill a datrys eu problemau eu hunain. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae bob un disgybl yn cael mynediad i gynllun addysg cymeriad a datblygu medrau allweddol. O fewn sesiynau penodol, maent yn dysgu medrau bywyd pwysig gan gynnwys pwysigrwydd cydchwarae a chydweithio. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar feithrin yr ymddygiad positif sydd gan bron bob un disgybl.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar bontio rhwng lleoliad a lleoliad ac mae bob rhan o daith addysgol y disgybl yn bwysig i'r staff. Mae gan yr ysgol berthynas waith gadarn iawn â'r cylch meithrin sydd wedi'i leoli ar safle'r ysgol. Maent yn cydweithio'n agos i adnabod unrhyw anghenion cynnar sydd gan y disgyblion, gan sicrhau bod darpariaeth addas ar eu cyfer. Mae trefniadau trosglwyddo cynhwysfawr rhwng Blynyddoedd 6 a 7 yn sicrhau bod trafferthion a phryderon bron pob un disgybl, gan gynnwys y rheiny ag anghenion ychwanegol, yn cael eu goresgyn. Golyga hyn fod y disgyblion yn hyderus ac yn hapus wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae gan arweinwyr a staff gysylltiadau cryf â'r rhan fwyaf o rieni. Maent yn rhannu gwybodaeth bwysig yn gyson ac yn gwahodd y rhieni i'r ysgol i ddathlu llwyddiannau'r disgyblion neu i drafod unrhyw bryder sydd wedi codi. Mae gan y CADY berthynas effeithiol iawn â rhieni plant sydd ag anghenion ychwanegol. Mae hi'n barod iawn i rannu unrhyw arbenigedd ar sut gall rhieni gefnogi eu plant gartref, er enghraifft trwy eu gwahodd i'r hafan i dderbyn cyngor ac arweiniad am ymyraethau sy'n hyrwyddo datblygiad emosiynol a medrau addysgol eu plant.

Trwy themâu ysgogol ac ymweliadau addysgol, mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â lleoliadau hanesyddol, gan gynnwys amgueddfa lechi Llanberis, ac yn eu dysgu am ddigwyddiadau pwysig yn hanes Cymru, megis boddi pentref Capel Celyn i ddarparu dŵr i Lerpwl.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol trwy gymryd rhan yn y fenter banc bwyd a'r ymgyrch codi arian i drigolion yn Uganda.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i fynegi eu barn. Mae athrawon yn cynnwys syniadau'r disgyblion wrth drafod y themâu tymhorol a'r hyn mae disgyblion yn awyddus i'w ddysgu. Mae pwyllgorau'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gwneud penderfyniadau pwysig, gan gynnwys bod yn rhan o'r trafodaethau ynglŷn â chynnwys Twm y ci fel aelod o'r ysgol, a gwariant ar adnoddau i'r ardaloedd tu allan.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i unrhyw achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo'n briodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i ymateb i unrhyw achosion o fwlio. Mae staff yn cadw cofnod o unrhyw achosion, yn monitro'n gyson ac yn cynnal trafodaethau â'r disgyblion a rhieni. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb cyson disgyblion yn gadarn iawn. Mae'r staff yn cadw cofnodion cynhwysfawr o achosion o absenoldeb ac yn cysylltu â rhieni yn amserol i drafod unrhyw bryderon ynglŷn â phresenoldeb eu plant. Gwneir defnydd effeithiol o wasanaethau allanol i gefnogi hyn.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sydd wedi'i seilio ar dair blaenoriaeth gadarn. Eu nod yw darparu'r cyfleoedd a phrofiadau gorau posibl i bob disgybl, bod ganddynt ddyheadau uchel i'r dyfodol, a chreu dinasyddion sy'n ymfalchïo yn eu gallu i siarad a chyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg.

Mae gan yr arweinwyr ar bob lefel amcanion strategol clir. Mae cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod anghenion dysgu ychwanegol a lles bob disgybl yn cael eu bodloni'n llawn. Gwneir defnydd effeithiol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i wella deilliannau disgyblion. Darperir rhaglenni cymorth llythrennedd, rhifedd a medrau cymdeithasol yn effeithiol ar gyfer dysgwyr penodol. Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn gadarn i gefnogi'r blaenoriaethau strategol, gan gynnwys gwella medrau Cymraeg disgyblion.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau'n strategol ymysg staff. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn ymfalchïo bod arweinwyr yn rhoi ffydd ynddynt i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae arweinwyr yn datblygu'r elfen o waith tîm ymysg staff yn effeithiol. Maent yn herio effaith tlodi ar gynnydd medrau disgyblion yn fwriadus trwy gynllunio'n bwrpasol i ymateb i anghenion bob un disgybl ac yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau eu bod yn cyflawni'n dda.

Ar draws yr ysgol, mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer bob aelod o'i chymuned. Mae disgwyliad i bob disgybl ddangos agweddau positif at eu dysgu, dangos parch at eraill a rheoli eu hymddygiad eu hunain yn dda. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn gadarn. Mae gan bob aelod o staff dargedau gwella sy'n cysylltu'n agos â'r cynllun gwella a'u blaenoriaethau datblygiad proffesiynol unigol. Mae arweinwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw tanberfformiad yn amserol gan sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn gwella perfformiad bob aelod o staff. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o berfformiad eu hunain ac maent yn cynnal cyfarfodydd cyson i herio perfformiad yr ysgol ac edrych ar ffyrdd i wella'n barhaus. O ganlyniad, mae gan yr ysgol hanes o wella cyson dros gyfnod.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a meysydd gwella'r ysgol. Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanwerthuso safonau a medrau disgyblion a'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae athrawon yn cymryd rhan flaenllaw mewn gweithgareddau craffu ar waith disgyblion ac yn arsylwi gwersi ei gilydd yn gyson. Gydag aelodau o'r uwch dîm, maent yn cynnal trafodaethau buddiol, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n bwrpasol i fwydo blaenoriaethau yng nghynlluniau gwella'r ysgol. Caiff y cynnydd ym mlaenoriaethau'r ysgol eu gwerthuso yn rheolaidd, a'u haddasu yn ôl yr angen.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithredu'n  ddiwyd fel cyfaill beirniadol. Maent yn cymryd rhan lawn yn y prosesau hunanwerthuso ac yn herio'r safonau dysgu ac addysgu yn gyson. Maent yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft drwy annog disgyblion a rhieni i gynnwys bwydydd iach yn y bocsys bwyd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod diwylliant o ddiogelu disgyblion yn flaenllaw yn yr ysgol. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau'r diogelu.

Mae'r arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae bob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu cyrsiau a hyfforddiant sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'u hanghenion unigol a blaenoriaethau strategol yr ysgol. Maent yn rhannu syniadau ac arferion gorau gyda'i gilydd yn gyson ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at ethos yr ysgol fel sefydliad sy'n dysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 12/12/2022